Canllawiau i Adroddiad Cryno'r
**Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol**
ar ddata 2023

**NNAP**
**National Neonatal Audit Programme**

# Gofal eich babi

## Mesur safonau a gwella gofal i fabanod newyddanedig



Llun trwy garedigrwydd Nick a Gemma

RCPCH Audits

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
*Leading the way in Children's Health*




**“Ganed Sienna wedi 22 wythnos a 3 diwrnod, yn pwyso dim ond 400 gram! Dros y misoedd y bu Sienna yn yr NICU roedd ein teimladau i fyny ac i lawr fel chwyrligwgan. Doedden ni ddim yn gwybod a fyddai ein merch fach yn goroesi neu beidio. Ar ôl 140 diwrnod, cafodd adael yr NICU. Mae Sienna newydd gael ei phen-blwydd yn 3 ac mae’n ffynnu!”**


**Llun trwy garedigrwydd**

**Gabriella a Daniel**

# Beth yw gofal i fabanod newyddanedig?

Bydd angen i tua **1 o bob 11** o fabanod gael eu derbyn i unedau babanod newyddenedigol oherwydd eu bod yn cael eu geni'n gynnar, ddim yn pwyso digon neu'n sâl ac angen gofal a thriniaeth arbenigol.

Efallai y bydd angen help ar eich babi gydag anadlu neu fwydo. Weithiau gall babanod gael haint neu gyflyrau meddygol eraill sydd angen triniaeth. Efallai y bydd eich babi yn aros mewn uned babanod newyddenedigol am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion. Fe'ch anogir i gymryd rhan weithredol yn eu gofal o'r cychwyn cyntaf Weithiau gall babanod gael haint neu gyflyrau meddygol eraill sydd angen triniaeth. Efallai y bydd eich babi yn aros mewn uned babanod newyddenedigol am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion.  Fe'ch anogir i gymryd rhan weithredol yn eu gofal o'r cychwyn cyntaf.




**Derbyniadau i unedau babanod newyddenedigol**

Mae tua **1 o bob 11** o fabanod sy'n cael eu geni yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bob blwyddyn (neu 53,838 allan o 605,479) angen gofal newyddenedigol arbenigol yn yr ysbyty.

# Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol?

**Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ansawdd y gofal a ddarperir gan unedau babanod newyddenedigol. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn gwneud hyn drwy'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP).**

Mae'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol yn helpu unedau babanod newyddenedigol i roi gwell gofal i fabanod sydd angen triniaeth arbenigol.

**Rydym yn ystyried:**

- A yw babanod yn derbyn gofal cyson o ansawdd uchel.
- A yw babanod wedi cael y gwiriadau iechyd a argymhellir i leihau'r risg o gymhlethdodau.
- Pa mor dda y mae babanod yn dod yn eu blaenau'n dilyn y gofal hwn.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth am ofal eich babi i helpu unedau i fabanod newyddanedig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wella'r gofal a'r canlyniadau i fabanod eraill. I helpu gyda hyn, rydym yn casglu gwybodaeth am fabanod sy'n derbyn gofal newyddenedigol. I helpu gyda hyn, rydym yn casglu gwybodaeth am fabanod sy'n derbyn gofal newyddenedigol.

Mae staff yr uned babanod newyddenedigol yn rhoi gwybodaeth eich babi ar system cofnodion electronig ddiogel o'r enw BadgerNet. Mae pob uned babanod newyddenedigol yn rhannu gwybodaeth o'r cofnodion electronig hyn gyda thîm prosiect y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP) yn y RCPCH, trwy brosesydd arall, Clevermed Ltd, sy'n rheoli'r system BadgerNet.

## Darganfyddwch fwy

I ddarganfod mwy am yr archwiliad, sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon a'ch hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd:

**www.rcpch.ac.uk/your-babys-information**

neu sganiwch y côd QR gyda'ch ffôn.

NNAP
**Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol**




**"Roedd y dyddiau’n anodd, ond y dyfodol yn werth y cyfan!”**

**Llun trwy garedigrwydd Egle**

# Pa feysydd gofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio arnynt?

**Mae adroddiad NNAP ar ddata 2023 yn cwmpasu pum maes gofal ar gyfer babanod sy’n cael eu geni’n rhy gynnar a babanod sâl, ac mae 19 o fesurau archwilio’n berthnasol i’r meysydd hyn.**

Dewiswyd y rhain gan grŵp o arbenigwyr yn y maes gofal i fabanod newyddanedig, a oedd yn cynnwys nyrsys, meddygon a rhieni â phrofiad o ofal i fabanod newyddanedig.
Mae sefydlu partneriaeth gyda rhieni mewn perthynas â gofal yn un o'r pum maes y mae'r NNAP yn canolbwyntio arnynt. Mae'r mesurau yn y maes gofal hwn yn canolbwyntio ar fwydo llaeth y fron ac ymgysylltiad rhieni gyda'r tîm babanod newyddenedigol sy'n gofalu am eu babanod. Mae'r NNAP yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni sydd â phrofiad o ofal i fabanod newyddanedig i fyfyrio ar y mesurau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio mwy am y pum maes gofal hyn ac yn dangos sut mae unedau arni ledled Cymru, Lloegr a'r Alban ar gyfer pob un o'r mesurau archwilio. Mae hefyd yn esbonio beth allwch chi ei wneud nesaf os oes gennych fabi mewn gofal i fabanod newyddanedig.



"Daisy yw hon – fe wnaethon ni ei henwi ar ôl y blodyn bach am mai dim ond 805g (1lb12) oedd hi’n bwyso pan gafodd ei geni. Roedd hi 11 wythnos yn gynnar oherwydd diagnosis o IUGR (methiant i dyfu yn y groth) difrifol pan gefais fy sgan 20-wythnos. Roedd arni angen sawl cam o gefnogaeth i anadlu. Dyma hi ar Ocsigen Llif Uchel.."

**Llun trwy garedigrwydd Rachael**

## Darganfyddwch fwy


Os ydych chi eisiau darganfod mwy am sut mae uned benodol i fabanod newyddenedigol yn gwneud, gallwch fynd i NNAP Online ac edrych ar y posteri canlyniadau, yn: **nnap.rcpch.ac.uk/postergenerator.aspx** neu sganio'r cod QR:

# Canlyniadau gofal i fabanod newyddanedig

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar rai o'r canlyniadau meddygol a all ddigwydd i fabanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n sâl.**

## Marwoldeb


Mae'n bwysig ein bod yn monitro cyfran y babanod sy'n cael eu derbyn am ofal newyddenedigol ac sydd yn anffodus yn marw cyn iddynt fynd adref, er bod y niferoedd hyn yn isel iawn. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau i fabanod newyddanedig adolygu nifer y babanod sy'n marw ac achosion marwolaeth gyda'r nod y bydd nifer y marwolaethau yn lleihau trwy rannu gwersi ac weithiau newidiadau mewn ymarfer.




**Marwoldeb**

Bu farw **6.4%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd ac a dderbyniwyd i ofal newyddenedigol cyn cael eu rhyddhau neu 44 wythnos ar ôl y mislif diwethaf cyn beichiogi.

## Dysplasia bronchopulmonaidd (BPD)




**Dysplasia bronchopulmonaidd (BPD)**


Datblygodd **31.5%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd ddysplasia broncopulmonaidd (BPD).

Yn aml iawn, nid yw ysgyfaint babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn wedi datblygu ac efallai y bydd angen help arnynt i anadlu.

Gall genedigaeth gynamserol arwain at heriau anadlu parhaus. Gall defnyddio peiriant anadlu, er ei fod yn aml yn ddarn hanfodol o offer, niweidio'r ysgyfaint a chynyddu'r risg o heintiau ar y frest. Gelwir y cyflwr hwn yn dysplasia bronchopulmonaidd (BPD), a elwir hefyd yn glefyd cronig yr ysgyfaint.

# Enterocolitis Necroteiddio (NEC)

Mae enterocolitis necroteiddio (NEC) yn gyflwr difrifol a all ddigwydd ar ôl genedigaeth gynamserol. Mae'n achosi llid yn y coluddyn, gan ei gwneud hi'n anodd i fabanod gael eu bwydo â llaeth, ac weithiau mae angen llawdriniaeth. Yn aml, mae'n rhaid i fabanod sydd â NEC aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig.  Yn anffodus, nid yw dros 20% o fabanod sydd ag NEC yn goroesi, a gall y rhai sydd yn byw wynebu oedi datblygiadol a phroblemau hirdymor gyda bwydo a gweithrediad y coluddyn.





**Enterocolitis Necroteiddio (NEC)**

Datblygodd **5.5%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd enterocolitis necroteiddio (NEC).

# Haint llif gwaed (BSI)

**Haint llif gwaed**

Cafodd **4.6%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd un neu fwy o achosion o haint llif gwaed.




Mae babanod sy'n sâl neu'n cael eu geni'n gynamserol mewn mwy o berygl o gael heintiau, hyd yn oed rhai nad ydynt fel arfer yn niweidio pobl iach.  Gall yr heintiau hyn ymestyn eu harhosiad yn yr uned babanod newyddenedigol, cynyddu'r risg o farwolaeth ac weithiau effeithio ar ddatblygiad tymor hir y babanod.

Er mwyn helpu i leihau'r risg o haint, mae'n hanfodol bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol, rhiant ac ymwelydd yn dilyn arferion atal a rheoli heintiau da ar yr uned babanod newyddenedigol.

# Anaf i'r ymennydd i fabanod sy'n cael eu geni'n gynamserol (IVH a cPVL)

Gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn ddioddef anaf i'r ymennydd, a achosir weithiau gan waedlif. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, ac yn dibynnu'n rhannol ar ddifrifoldeb yr anaf.

Mae'r NNAP yn adrodd ar ddau fath o anaf i'r ymennydd - mathau mwy difrifol o waedlif mewnwythiennol (IVH) a leukomalacia perifentrigol systig (cPVL).

Trwy ddeall faint o fabanod sy'n cael anafiadau i'r ymennydd, gall timau newyddenedigol geisio lleihau nifer yr anafiadau i'r ymennydd.




**Anaf i'r ymennydd mewn babanod a aned yn rhy gynnar – gwaedlif mewnwythiennol (IVH)**

Roedd **6.6%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos wedi cael IVH.




**Anaf i'r ymennydd mewn babanod a aned yn rhy gynnar - leukomalacia perifentrigol systig (cPVL)**

Roedd **2.6%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos wedi cael cPVL.




# Y gofal amenedigol gorau posib

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar ymyriadau cyn, yn ystod neu'n syth ar ôl genedigaeth a all wella canlyniadau i fabanod sy'n cael eu geni'n rhy gynnar neu sy'n sâl.**

## Steroidau cynenedigol

Weithiau mae babanod sy'n cael eu geni'n rhy gynnar yn cael anawsterau anadlu. Mae Canllaw 1 yn argymell bod mamau sy'n rhoi genedigaeth i fabi cyn 34 wythnos o'r cyfnod beichiogi yn derbyn cwrs llawn o steroidau cynenedigol yn yr wythnos cyn iddynt roi genedigaeth er mwyn cynorthwyo i gefnogi datblygiad gweithrediad ysgyfaint eu babanod. Mae steroidau cynenedigol yn helpu i leihau anawsterau anadlu a thrwy hyn y risg o farwolaeth a phroblemau difrifol eraill, fel gwaedu i'r ymennydd.




**Steroidau cynenedigol**

Derbyniodd 52.9% o famau a roes enedigaeth i fabi cyn 34 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd gwrs llawn o gorticosteroidau cynenedigol yn yr wythnos cyn geni'r babi.

## Magnesiwm sylffad cynenedigol




**Magnesiwm sylffad cynenedigol**

Derbyniodd **85.1%** o famau a roes enedigaeth i fabi cyn 30 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd magnesiwm sylffad yn y 24 awr cyn yr enedigaeth.


Mae rhoi magnesiwm sylffad i fenywod sydd mewn perygl o eni babi yn llawer rhy gynnar yn lleihau gan 32% y siawns y bydd eu babi yn datblygu parlys yr ymennydd, sef cyflwr gydol oes sy'n effeithio ar symudiad a chydsymudiad.

Mae Canllaw1 yn argymell y dylid rhoi magnesiwm sylffad i bob menyw sy'n geni babi cyn 30 wythnos o fewn y 24 awr cyn iddynt roi genedigaeth.

# Genedigaeth mewn canolfan gyda NICU

Mae babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn mewn mwy o berygl o gymhlethdodau difrifol, fel anaf i'r ymennydd, dysplasia bronchopulmonaidd a enterocolitis necroteiddio. Felly, dylai'r babanod hyn gael eu geni mewn ysbyty gydag uned gofal dwys i fabanod newyddanedig (NICU).


Mae NICUs yn darparu'r lefel uchaf o ofal ac maent yn y sefyllfa orau i ofalu am y babanod hyn. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y canlyniadau i fabanod hynod o gynamserol yn well os ydynt yn derbyn gofal mewn NICU ar ôl eu geni.




**Genedigaeth mewn canolfan gyda NICU**

Cafodd **79.6%** o fabanod a aned cyn 27 wythnos neu a oedd yn pwyso llai na 800 gram neu a oedd yn oedd un o enedigaeth luosog cyn 28 wythnos, eu geni mewn gwasanaeth mamolaeth a oedd ar yr un safle â NICU dynodedig.

# Gohirio clampio’r llinyn bogail




**Gohirio clampio’r llinyn bogail**

Cafodd llinyn bogail **68.3%** o fabanod a aned cyn 34 wythnos o’r cyfnod beichiogrwydd ei glampio ar neu ar ôl un munud o'u geni.


Mae gohirio clampio’r llinyn bogail yn golygu aros am o leiaf 60 eiliad ar ôl genedigaeth cyn clampio'r llinyn bogail. Mae ymchwil yn dangos bod gwneud hyn yn lleihau'r risg o farwolaeth gan bron i draean mewn babanod sy’n cael eu geni’n rhy gynnar[2].

Mewn rhai amgylchiadau prin, nid yw’n briodol oedi cyn clampio’r llinyn bogail, ond gellir gwneud hyn yn achos y rhan fwyaf o fabanod. Felly dyma'r opsiwn gorau, hyd yn oed os oes angen help ar eich babi i anadlu.

# Tymheredd ar adeg eu derbyn i'r uned

Mae tymheredd isel ar adeg derbyn yn gysylltiedig â risg o salwch a marwolaeth mewn babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol. Mae tymheredd isel (neu hypothermia) yn gyflwr y gellir ei atal mewn babanod newyddanedig.

Mae'r mesur NNAP hwn yn edrych ar ba mor llwyddiannus yw unedau ar gyfer babanod newyddanedig o ran sicrhau bod babanod sy'n cael eu geni'n llawer rhy fuan yn cael y darlleniad tymheredd cyntaf arferol (rhwng 36.5 a 37.5°C) o fewn awr i'w geni.




## Tymheredd ar adeg eu derbyn i'r uned

Cafodd **80.4%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd ddarlleniad tymheredd cyntaf ar ôl eu derbyn a oedd rhwng 36.5–37.5°C ac a oedd wedi'i fesur o fewn awr i'w geni.



**"Cafodd ein merch fach a aned wedi 22 wythnos ei gosod mewn rhywbeth oedd yn edrych fel bag archfarchnad adeg ei geni, cyn cael ei mewndiwbio. Roedd hi'r un hyd â bar siocled Kit Kat ac yn pwyso llai na jar o jam! Gall y pethau lleiaf oll droi allan i fod yn wyrth enfawr."**


**Llun trwy garedigrwydd Gabriella a Daniel**

# Bwydo llaeth o’r fron yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf o fywyd

Mae’r llaeth cynnar a ddaw o’r fron, sef colostrwm, yn fuddiol i iechyd babanod a gall hefyd helpu i sefydlu bwydo ar y fron yn y tymor hwy.

Efallai na fydd babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n sâl yn barod i gael eu bwydo o fron eu mam ar unwaith.  Anogir mamau i dynnu llaeth i'w babi o fewn yr ychydig oriau cyntaf ar ôl ei eni a gellir defnyddio'r llaeth hwn ar gyfer gofal ceg neu ei roi trwy diwb bwydo.  Mae'n bwysig bod gwasanaethau ar gyfer babanod newyddanedig yn darparu'r gefnogaeth gywir i deuluoedd ar yr adeg iawn.

Fel rhan o sawl mesur sy'n edrych ar y gofal a roddir i famau a babanod cyn, yn ystod ac yn syth ar ôl geni, mae'r NNAP yn adrodd ar faint o fabanod sy'n derbyn llaeth eu mam eu hunain yn ystod dau ddiwrnod cyntaf eu bywydau.




**Bwydo llaeth o’r fron yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf o fywyd**

Roedd **62%** o fabanod a aned cyn 34 wythnos wedi derbyn llaeth eu mam yn ystod 2 ddiwrnod cyntaf eu bywydau.

**"Rhiant, Charlotte, yn cael cwtsh croen wrth groen tra bod ei babi newydd yn cael ei llaeth.."**



# Sefydlu partneriaeth gyda rhieni ar gyfer gofalu


**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar sut y gall timau sy'n gofalu am fabanod weithio'n effeithiol gyda theuluoedd babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol neu'n sâl.**

## Bwydo llaeth o'r fron drwy gydol arhosiad babanod newyddanedig

Mae babanod sy'n cael eu geni'n rhy gynnar yn elwa o laeth o fron eu mam eu hunain oherwydd ei bod yn haws ei dreulio ac yn eu helpu i dyfu a'u hamddiffyn rhag heintiau.  Mae bwydo ar y fron hefyd yn ffordd dda o gael cyswllt croen i groen â'ch babi ac i chi ddod i adnabod eich gilydd.


Mae'n bwysig bod staff ar yr uned i fabanod newyddanedig yn rhoi cymorth ymarferol i chi neu'ch partner i'ch helpu i dynnu llaeth, i helpu gyda bwydo ar y fron, ac i sefydlogi bwydo yn barod ar gyfer mynd adref. Gall cymorth ddod gan arbenigwr bwydo babanod, nyrs ar gyfer babanod newyddanedig neu fydwraig.

Mae'r NNAP yn adrodd am gyfran y babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol sy'n derbyn llaeth eu mam ar y 14eg diwrnod o'u bywydau, a phan gânt eu rhyddhau o'r uned i fabanod newyddanedig.




### Bwydo ar laeth o'r fron ar y 14 eg diwrnod o fywyd

Roedd **79.6%** o'r babanod a aned cyn 34 wythnos yn derbyn llaeth eu mam ar y 14eg diwrnod o'u bywydau.




### Bwydo ar laeth o'r fron ar adeg eu rhyddhau o'r uned

Roedd **63%** o fabanod a aned cyn 34 wythnos wedi derbyn llaeth eu mam ar adeg eu rhyddhau.


### Beth allwch chi ei wneud?

Gofynnwch i staff yn eich uned am wybodaeth am laeth y fron, sut y gallant eich cefnogi i dynnu llaeth a bwydo ar y fron, ac am gyngor am sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth.

# Ymgynghori gyda rhieni o fewn 24 awr

Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall ac yn cymryd rhan yng ngofal eu baban. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhieni sy'n rhoi gofal ymarferol ac yn gwneud penderfyniadau yn gallu gwella canlyniadau i fabanod. Mae'r NNAP yn edrych ar a yw uwch aelod o'r tîm ar gyfer babanod newyddanedig wedi siarad â rhieni o fewn y 24 awr cyntaf o dderbyn eu babi i'r uned.

Mae'r ymgynghoriad cyntaf yn gyfle i'r rhieni sefydlu perthynas ag uwch aelod o'r tîm gofal. Gall rhieni ofyn cwestiynau a rhannu pryderon a gall yr aelod o'r tîm gael gwybodaeth am y teulu a'u hanghenion a'u dewisiadau.




### Ymgynghoriad o fewn 24 awr

Derbyniodd **95.2%** o rieni ymgynghoriad wedi'i ddogfennu gan uwch aelod o'r tîm babanod newyddenedigol o fewn 24 awr o dderbyn eu babi i'r uned

## Beth allwch chi ei wneud?


Os ydych yn teimlo nad ydych wedi cael ymgynghoriad cynnar gydag aelod o'r tîm babanod newyddenedigol, gallwch ofyn i nyrs eich babi drefnu un.  Yn y cyfarfod hwn, gallwch ofyn sut y gallwch weithio mewn partneriaeth â'r tîm babanod newyddenedigol i ofalu am eich babi.

Cofiwch, gallwch ofyn am gyfarfod ag uwch aelod o'r tîm babanod newyddenedigol ar unrhyw adeg, p'un a gawsoch un ai peidio o fewn 24 awr ar ôl i'ch babi gael ei dderbyn i'r uned newyddenedigol.

# Cynnwys rhieni yn rowndiau ward yr ymgynghorydd

Gall gofal dwys i fanabod newyddanedig roi straen ar fabanod a rhieni. Mae'n bwysig bod teuluoedd yn deall ac yn cymryd rhan yng ngofal eu baban oherwydd gall hyn wella'r canlyniadau i fabanod.

Gall cynnwys rhieni yn rowndiau ward yr ymgynghorwyr, sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ar unedau babanod newyddenedigol, helpu i ddatblygu partneriaeth wrth gynllunio gofal rhwng y rhieni a'r tîm babanod newyddenedigol.




**Cynnwys rhieni yn rowndiau ward yr ymgynghorydd**

Yn **38.7%** o ddyddiau gofal babanod cynhaliwyd rownd ward dan arweiniad ymgynghorydd ble yr oedd o leiaf un rhiant wedi'i cynnwys.

## Beth allwch chi ei wneud?

Darganfyddwch pryd mae rowndiau ward yr ymgynghorydd yn cael eu cynnal fel arfer. Os byddai'n anodd i chi ymuno â'r tîm, gallwch ofyn i aelod o'r tîm babanod newyddenedigol gyflwyno neu rannu gwybodaeth benodol am eich babi yn ystod rownd y ward.

# Cyfraddau staffio ymysg nyrsys babanod newyddenedigol


**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar a oes digon o nyrsys yn gweithio ar unedau i fabanod newyddenedigol er mwyn sicrhau bod babanod yn cael gofal effeithiol.**

## Cyfraddau staffio ymysg nyrsys babanod newyddenedigol

Mae cael digon o nyrsys babanod newyddanedig i ofalu am fabanod yn yr uned newyddenedigol yn bwysig iawn i sicrhau bod ansawdd y gofal yn uchel, bod y gefnogaeth ar gael i rieni, a bod y canlyniadau i fabanod yn dda.

Mae canllawiau cenedlaethol 3,4,5 sy'n nodi faint o nyrsys sydd eu hangen ar gyfer pob shifft, yn dibynnu ar nifer y babanod y maent yn gofalu amdanynt a pha mor gymhleth yw anghenion y babanod hynny.

Mae'r NNAP yn adrodd faint o shifftiau sydd â digon o nyrsys i ofalu am y babanod yn yr uned babanod newyddenedigol, yn seiliedig ar y canllawiau hyn.




**Cyfraddau staffio ymysg nyrsys babanod newyddanedig**

Roedd **79.3%** o shifftiau nyrsio â'r nifer cywir o nyrsys yn unol â chanllawiau a manyleb gwasanaeth.

# Prosesau gofal

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar a yw babanod a aned yn gynnar neu'n sâl yn cael y sgrinio a'r apwyntiadau dilynol angenrheidiol.**


## Retinopathi mewn babanod a aned yn gynnar

Mae retinopathi mewn babanod a aned yn gynnar (ROP) yn gyflwr sy'n effeithio ar bibellau gwaed yn y rhan o'r llygad a elwir y retina. Os caiff babi ei eni'n gynamserol iawn, gall y pibellau gwaed hyn ddechrau tyfu'n annormal, sy'n achosi ROP.

Gall dod o hyd i ROP a'i drin cyn iddo fynd yn ddifrifol leihau'r risg o golli golwg.

Mae yna ganllaw cenedlaethol[6] sy'n dweud wrth wasanaethau newyddenedigol pa fabanod ddylai gael eu sgrinio ar gyfer ROP a phryd y dylid cynnal y sgrîn gyntaf.

Mae'r NNAP yn edrych ar ba mor dda y mae unedau babanod newyddenedigol yn ei wneud wrth sgrinio'r babanod hyn ar yr adeg iawn.




**Sgrinio ar gyfer retinopathi mewn babanod a aned yn gynnar (ROP)**

Cafodd **78.4%** o fabanod a aned cyn 31 wythnos o'r tymor beichiogi neu a oedd yn pwyso llai na 1501g adeg eu genedigaeth eu sgriniad cyntaf am ROP yn unol â'r canllaw.

## Beth allwch chi ei wneud?

Os oes angen sgrinio eich babi am ROP, darganfyddwch pryd y bydd hyn yn digwydd.

Os caiff eich babi ei ryddhau cyn ei sgrinio'n derfynol, gwnewch yn siŵr bod gennych ddyddiad apwyntiad llygaid cleifion allanol cyn mynd â'ch babi adref i sicrhau nad ydych yn colli'r apwyntiad hwn.

Gallwch ddarganfod mwy drwy ddarllen y ddogfen Gwybodaeth am Sgrinio ar gyfer Retinopathi mewn Babanod a Aned yn Gynnar i Rieni a Gofalwyr, ar gael yn: **www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-information-parents-carers**

# Cymorth anadlu anfewnwthiol

Mae dysplasia bronchopulmonaidd (BPD) yn glefyd yr ysgyfaint sy'n effeithio ar fabanod sy'n cael eu geni'n gynamserol.  Un ffactor sy'n cyfrannu at ddatblygiad BPD yw'r math o gymorth anadlu sy'n cael ei roi i fabanod.


Gall darparu cymorth anadlu anfewnwthiol, fel CPAP, yn hytrach na defnyddio awyru mecanyddol trwy diwb endotracheaidd leihau'r risg o BPD.

Mae'r NNAP yn edrych ar faint o fabanod sy'n derbyn cymorth anadlu anfewnwthiol yn unig yn ystod 7 diwrnod cyntaf eu bywyd.

"Tro cyntaf fy merch ar ocsigen, ond nid y tro olaf. Gall rhai dyddiau fod yn anodd, un cam ymlaen a naw tuag yn ôl. Ond dal ati!"

**Llun trwy garedigrwydd Toni**






## Cymorth anadlu anfewnwthiol

Cafodd **49.3%** o fabanod a aned cyn 32 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd gymorth anadlu anfewnwthiol yn unig yn ystod y saith diwrnod cyntaf o'u bywyd.

# Archwiliad meddygol dilynol yn ddwyflwydd oed

Mae'n bwysig bod pediatregydd neu neonatolegydd (meddygon arbenigol sydd wedi'u hyfforddi yng ngofal plant a babanod) yn cadw golwg ar ddatblygiad babanod a aned naill ai'n gynamserol iawn neu'n sâl ar ôl iddynt adael yr uned babanod newyddenedigol. Mae canllaw cenedlaethol[7] yn dweud wrth wasanaethau newyddenedigol pryd a sut y dylid gwneud hyn.

Mae'r NNAP yn edrych a oes ymgynghoriad dilynol wedi'i ddogfennu yn ddwyflwydd oed ar gyfer babanod a aned cyn 30 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd.

Mae babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol yn fwy tebygol o gael problemau datblygiadol na babanod sy'n cael eu geni ar ddiwedd y cyfnod beichiogrwydd llawn. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gofalu am fabanod cynamserol yn gwybod sut mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn, fel y gellir rhoi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar waith.




## Beth allwch chi ei wneud?

Cadwch mewn cysylltiad â'r uned i fabanod newyddenedigol ar ôl i chi gael eich rhyddhau a darganfod pryd a ble y bydd apwyntiadau dilynol yn digwydd. Mae mynd i bob apwyntiad dilynol yn golygu y gallwch gael sicrwydd ynghylch sut mae'ch babi'n datblygu a chael unrhyw gefnogaeth y gallai fod ei hangen ar eich babi.

### Archwiliad dilynol yn ddyflwydd oed

Derbyniodd **77%** o fabanod a aned cyn 30 wythnos o'r tymor beichiogi archwiliad meddygol dilynol yn ddwyflwydd oed wedi'i gywiro yn ôl cyfnod beichiogi (18-30 mis o'r ystod oedran derbyniol wedi'i gywiro yn ôl cyfnod beichiogi).

## Adeg ei geni

"Dim ond 4lb oedd Beatrice, ond os nad oedd hi'n fawr, roedd hi'n ddigon.."





## Yn 2 flwydd oed

"Nawr, ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae hi'n dal mor gryf, mae'n ein synnu. Mae hi wedi pasio'i holl gerrig milltir, yn goleuo unrhyw stafell y mae ynddi, gyda'r wên hyfrytaf, ac mae'n gwbl ddi-ofn!"

**Llun trwy garedigrwydd Charlotte**

# Canlyniadau NNAP eich uned

Mae'r wybodaeth a roddir yn y canllaw hwn yn disgrifio'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pob uned yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Gallwch chwilio am bosteri NNAP eich uned - rydym yn annog timau mewn unedau i fabanod newyddenedigol i'w harddangos. Gallwch hefyd weld y rhain yn:

**nnap.rcpch.ac.uk/postergenerator.aspx**

Gellir gweld enghreifftiau o'r ddau boster isod.

Mae'r posteri hyn yn dangos canlyniadau NNAP ar gyfer eich uned, canlyniadau cenedlaethol a'r hyn y mae eich uned yn ei wneud mewn ymateb i'w canlyniadau NNAP. Lle mae cyfleoedd i wella, anogir unedau i lunio cynllun gweithredu.

Gallwch weld adroddiad llawn y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol a gwybodaeth am bob ysbyty ar NNAP Ar-lein yn

**www.nnap.rcpch.ac.uk**






# Pwy sy'n cefnogi'r NNAP?

Rydym yn falch o gael cefnogaeth amrywiaeth o sefydliadau. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth isod.

Bliss

Bliss yw'r elusen yn y DU sy'n gweithio i sicrhau bod pob babi sy'n cael ei eni'n gynamserol neu'n sâl yn y DU yn cael y cyfle gorau o oroesi ac ansawdd bywyd. Mae Bliss yn cefnogi'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol.

Am gefnogaeth a gwybodaeth, ewch i: **www.bliss.org.uk**

British Association of Perinatal Medicine

Nod Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) yw gwella safonau gofal amenedigol trwy gefnogi pawb sy'n ymwneud â gofal amenedigol i wneud y gorau o'u sgiliau a'u gwybodaeth, cyflwyno a rhannu arferion diogel ac arloesol o ansawdd uchel, ymgymryd ag ymchwil, a hyrwyddo anghenion babanod a'u teuluoedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

**www.bapm.org**

Neonatal Nurses Association

Y Gymdeithas Nyrsys Babanod Newyddanedig (NNA) yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli , cefnogi a dathlu nyrsys babanod newyddenedigol, sy'n gweithio i hyrwyddo nyrsio newydd-enedigol er budd babanod newyddenedigol a'u teuluoedd ledled y wlad.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.nna.org.uk**

# Beth allwch chi ei wneud nesaf?

- Dysgwch fwy am ganlyniadau NNAP eich uned ar gyfer babanod newyddenedigol trwy fynd i declyn adrodd NNAP ar-lein yn: **www.nnap.rcpch.ac.uk**
- Gofynnwch i'ch nyrs babanod newyddanedig am fwy o wybodaeth am ganlyniadau NNAP eich uned a'u cynlluniau ar gyfer gwella.
- Dysgwch fwy am yr hyn y mae'r NNAP yn ei wneud a sut mae gwybodaeth eich babi'n cael ei defnyddio i gefnogi gwelliant drwy fynd i: **www.rcpch.ac.uk/nnap**
- Gofynnwch i aelod o staff yr uned babanod newyddenedigol am gymorth.

**"Gyda sgôr APGAR (prawf i wirio iechyd babi) o ddau yn unig, rhaid oedd mewndiwbio Beatrice a chlirio ei llwybrau anadlu. Wedi iddi gael deunydd i gryfhau'r ysgyfaint, medrodd dynnu'r tiwb o'r tracea a hithau ond yn 44 munud oed!"**

**Llun trwy garedigrwydd Charlotte**



## Darganfyddwch fwy am yr NNAP

**I gael gwybod mwy am yr archwiliad, ewch i'n gwefan isod neu defnyddiwch eich ffôn i sganio'r cod QR.**

**www.rcpch.ac.uk/NNAP**

**I gael gwybod sut rydym yn defnyddio gwybodaeth am eich baban a beth yw eich hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn: www.rcpch.ac.uk/your-babys-information**

# Rhestr termau

**Cynenedigol** – Y cyfnod cyn geni yn ystod beichiogrwydd neu'n gysylltiedig â beichiogrwydd.

**Magnesiwm sylffad cynenedigol** – Sylwedd a geir yn naturiol yn y corff ond a roddir fel meddyginiaeth i fenywod sy'n rhoi genedigaeth yn gynamserol, er mwyn lleihau'r risg o barlys yr ymennydd.

**Steroidau cynenedigol** – Meddyginiaeth a roddir i famau a allai roi genedigaeth yn gynnar i leihau'r risg i'r babi o ddioddef problemau anadlu, gwaedu i'r ymennydd ac oedi datblygiadol.

**Dysplasia bronchopulmonaidd (BPD)** – Cyflwr ysgyfaint sy'n effeithio ar fabanod sy'n cael ei geni'n gynamserol yn bennaf. Mae'r NNAP yn diffinio bod gan fabi BPD os oes angen cymorth anadlu neu ocsigen ychwanegol arno pan fydd yn cyrraedd 36 wythnos o oedran beichiogrwydd wedi'i gywiro. Weithiau gelwir BPD yn 'glefyd cronig yr ysgyfaint' (CLD).

**Pwysedd llwybr anadlu positif parhaus (CPAP)** – Gweler Awyru.

**Leukomalacia periventricular systig (cPVL)** – Anafi ymennydd babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol.

**Gohirio clampio'r llinyn bogail** - Aros o leiaf 60 eiliad ar ôl geni'r babi cyn clampio'r llinyn bogail.

**Tynnu llaeth ar y fron** – Defnyddio pwmp, dwylo neu'r ddau i gael llaeth o fronnau'r fam. Gellir storio'r llaeth mewn oergell neu rewgell neu ei roi yn uniongyrchol i'r babi.

**Oes y beichiogrwydd** – Gelwir nifer yr wythnosau y bu'r babi yn y groth yn feichiogrwydd. Mae geni babi ar amser yn golygu babi sy'n cael ei eni ar ôl 37 wythnos lawn yn y groth. Os caiff babi ei eni cyn beichiogrwydd o 37 wythnos, mae'n gynamserol.

**Gwaedlif mewnwythiennol (IVH)** – Gweler anaf i ymennydd babanod sy'n cael eu geni'n gynamserol.

**Enterocolitis Necroteiddio (NEC)** – Cyflwr difrifol a all ddigwydd ar ôl genedigaeth gynamserol. Mae'n achosi llid yn y coluddyn, gan ei gwneud hi'n anodd i fabanod gael eu bwydo â llaeth, ac weithiau mae angen llawdriniaeth.

**Newyddanedig** – Newyddanedig, neu'r 28 diwrnod cyntaf o fywyd.

**NICU** - Uned Gofal Dwys i Fabanod Newyddenedigol - Lle mae babanod sydd angen y lefelau uchaf o ofal yn derbyn gofal.

**Pediatreg** – Y gangen o feddyginiaeth sy'n delio gyda phlant a'u hiechyd.

**Amenedigol** – Y cyfnod rhwng beichiogi a hyd at flwyddyn ar ôl rhoi genedigaeth.

**Cynamserol** - Babi a aned cyn 37 wythnos o feichiogrwydd (y tymor llawn yw 40 wythnos).

**Anaf i'r ymennydd cyn y tymor llawn** – gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn brofi anaf i'r ymennydd, a achosir weithiau gan waedlyd. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, yn rhannol yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r anaf. Mae'r NNAP yn adrodd am ddau fath o anaf i'r ymennydd - mathau mwy difrifol o waedlif mewnwythiennol (IVH) a leukomalacia perifentrigol systig (cPVL).

**Retinopathi mewn babanod a aned yn gynnar (ROP)** – Niwed i gefn y llygad (retina) mewn babanod a aned yn gynnar a babanod y mae eu pwysau'n isel iawn. Nid yw ROP yn cael ei ddeall yn llawn ond mae'n gysylltiedig â faint o ocsigen sydd yn y gwaed. Dylid cadw golwg yn rheolaidd ar fabanod sydd mewn perygl am arwyddion o ROP.

**Awyru** – Cymorth mecanyddol gydag anadlu, i helpu'r babi i gael lefelau derbyniol o ocsigen a charbon deuocsid yn ei waed pan nad yw'n gallu cyflawni hyn. Mae sawl math o awyru gan gynnwys CPAP.

**Rowndiau Ward** - Adolygiadau rheolaidd, cynlluniedig o'r holl fabanod mewn ward neu ardal, sy'n gynnwys yr holl dîm sy'n gofalu am y cleifion hynny, yn aml yn y bore.

**Nodyn ynghylch terminoleg:**

Trwy gydol y canllaw hwn defnyddir y term 'mam'. Fodd bynnag, nid pobl sy'n uniaethu fel menywod yn unig a allai fod eisiau cael gafael ar y daflen hon. Dylai eich gofal fod yn bersonol, yn gynhwysol ac yn sensitif i'ch anghenion beth bynnag yw eich hunaniaeth rhywedd.

# Cyfeiriadau


[1]Canllaw NICE [NG25]. Preterm labour and birth. Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Mehefin 2022. Ar gael yn: **www.nice.org.uk/guidance/ng25**

[2]Fogarty, M. et al. Delayed vs early umbilical cord clamping for preterm infants: a systematic review and meta-analysis. Am J Obstet Gynecol. 2018 Jan;218(1):1-18.doi: 10.1016/j.ajog.2017.10.231. Ar gael yn: **pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29097178/**

[3]NHS England. Neonatal Critical Care Service Specification. 2016. Ar gael yn: **www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e08/**

[4]Department of Health. Toolkit for high quality neonatal services. 2009. Ar gael yn: **https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20130123200735/http:/www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_107845**

[5]British Association of Perinatal Medicine. Service Standards for Hospitals Providing Neonatal Care (3rd edition). 2010. Ar gael yn: **www.bapm.org/resources/32-service-standards-for-hospitals-providing-neonatal-care-3rd-edition-2010**

[6] Screening of retinopathy of prematurity (ROP) – clinical guideline. Ar gael yn: **www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-rop-clinical-guideline**

[7]NICE guideline [NG72]. Developmental follow-up of children and young people born preterm. 2017. Ar gael yn: **www.nice.org.uk/guidance/ng72**

Canllaw i Adroddiad Cryno
**y Rhaglen Archwilio Genedlaethol**
ar gyfer 2023

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

Comisiynir y Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Archwilio a Chanlyniadau Cleifion Clinigol Cenedlaethol (NCAPOP). Mae HQIP yn cael ei arwain gan gonsortiwm o Academi y Colegau Brenhinol Meddygol, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Lleisiau Cenedlaethol. Ei nod yw hyrwyddo gwella ansawdd yng nghanlyniadau cleifion, ac yn benodol, cynyddu'r effaith y mae archwiliadau clinigol, rhaglenni adolygu canlyniadau a chofrestrfeydd yn ei chael ar ansawdd gofal iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae HQIP yn dal y contract i gomisiynu, rheoli a datblygu'r Rhaglen Archwilio Clinigol Cenedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP), sy'n cynnwys tua 40 o brosiectau sy'n ymwneud â gofal a ddarperir i bobl ag ystod eang o gyflyrau meddygol, llawfeddygol ac iechyd meddwl. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan GIG Lloegr, Llywodraeth Cymru ac, yn achos rhai prosiectau unigol, gweinyddiaethau datganoledig eraill a rhai sy'n dibynnu ar y goron.

**www.hqip.org.uk/national-programmes**

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
*Leading the way in Children's Health*

**Royal College of Paediatrics and Child Health**
5-11 Theobalds Road,
London, WC1X 8SH

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC038299). ©RCPCH 2024